

BRWYDR PRYDAIN

RAF
100



raf100schools.org.uk

CYFLWYNIAD



Brwydr Prydain oedd un o fuddugoliaethau pwysicaf y Cyngreiriaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Roedd awyrlu'r Almaenwyr (y Luftwaffe) wedi bod ar flaen pob ymosodiad gan y Natsiaid ar y gwledydd o'u hamgylch, y cyntaf ohonynt ar Wlad Pwyl ym mis Medi 1939. Byddai'r Luftwaffe'n ymosod ar amddiffynfeydd allweddol gwlad, gan gynnwys y meysydd awyr, i glirio'r ffordd i'w troedfilwyr (y fyddin) i lifo i mewn. Y syniad oedd na fyddai'r wlad yr ymosodent arni'n gallu eu rhwystro i'w goresgyn, gan y byddai ei hawyrlu wedi ei dinistrio a'i chanolfannau milwrol wedi'u difrodi. Roedd cynllun brwydro'r Natsiaid wedi bod yn llwyddiant wrth ymosod ar Wlad Pwyl, a hefyd wedi bod yn effeithiol wrth ymosod ar Lwcsembwrg, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd a

Ffrainc ym misoedd Mai a Mehefin 1940. Ymhen dim ond chwe wythnos roedd yr Almaenwyr wedi trechu'r pedair gwlad.

Erbyn diwedd Mehefin 1940, roedd yn amlwg mai'r unig wlad arall roedd angen ei gorchfygu i gwblhau goresgyniad Gorllewin Ewrop oedd Prydain. I'r Almaenwyr, roedd yn hanfodol eu bod yn dinistrio amddiffynfeydd Prydain ar ei glannau deheuol a dwyreiniol cyn ymosod arni ar draws y Sianel. Tua diwedd mis Mehefin 1940, dechreuodd awyrennau'r Almaen hedfan drosodd i Brydain, gan ragchwilio'r wlad a gwneud mân ymosodiadau. Roedd hyn i gyd yn baratoad ar gyfer cychwyn y prif ymosodiad.

Y FRWYDR EI HUN

Dechreuodd ymosodiad yr Almaenwyr ar Brydain o'r awyr ar 10 Gorffennaf 1940. Er i'r cyrchoedd ar Brydain o'r awyr barhau trwy gydol yr Ail Ryfel Byd, yr wythnosau o 10 Gorffennaf tan 31 Hydref sy'n cael eu hystyried fel cwrs Brwydr Prydain. Mae'r rhan fwyaf o haneswyr yn bras-rannu'r frwydr yn bedwar cyfnod (er bod rhai, sy'n rhannu naill ai'r cyfnod cyntaf neu'r olaf ymhellach, yn honni bod pump).

CYFNOD UN: 10 GORFFENNAF-12 AWST 1940

Ymosododd Luftwaffe'r Almaen ar safleoedd ar hyd glannau Prydain a llongau yn y Sianel trwy ollwng bomiau.

Ym mis Gorffennaf, dechreuodd yr Almaenwyr baratoi ar gyfer 'Operation Sea Lion', eu cynllun i oresgyn Prydain. Prif

fwriad y cynllun oedd sicrhau na fyddai amddiffynfeydd awyr nac awyrennau'n gallu ymosod ar filwyr yr Almaen wrth iddynt ddynesu o'r môr wedi cyrraedd Prydain.

CYFNOD DAU: 13-18 AWST 1940

Dechreuodd yr Almaenwyr ganolbwyntio'r cyrchoedd bomio ar feysydd awyr a gorsafoedd radar Prydain. Roedd awyrennau ymladd yn cyd-deithio gydag awyrennau bomio'r Almaen, ac roedd yn rhaid i beilotiaid Prydain a'r amddiffynfeydd ar y ddaear (gynnau gwrth-awyrennau) atal y rheiny hefyd.

Roedd bomio dwys prif ymosodiad yr Almaen wedi'i gynllunio ar gyfer 13 Awst, Diwrnod yr Eryr, neu Adlertag i'r

Luftwaffe. Y diwrnod hwnnw fyddai dechrau cyfnodau olaf y cyrch o'r awyr. Mewn porthladdoedd yn Ewrop oresgynedig roedd llongau'r Almaen yn barod ar gyfer yr ymosodiad o'r môr. Un o'r diwrnodau ffyrnicaf o frwydro rhwng yr RAF a'r Luftwaffe oedd 18 Awst. Ar y diwrnod hwnnw, dioddefodd y ddwy ochr golledion mwyaf y frwydr. Llwyddodd yr Almaenwyr i ddinistrio awyrennau a meysydd awyr Prydain, ond dal ati i ymladd yn ôl wnaeth yr RAF, a rhwystrwyd yr ymosodiad o'r môr rhag cychwyn.

CYFNOD TRI: 19 AWST-6 MEDI 1940

Dechreuodd y Luftwaffe fomio safleoedd diwydiannol a safleoedd heb fod yn rhai milwrol, yn ogystal â dechrau bomio trefi a dinasoedd. Lledodd yr ymosodiadau y tu hwnt i lannau De-ddwyrain Lloegr, i fyny i'r De-orllewin, Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr a chyn belled â'r Alban.

Gwnaeth y Prif Weinidog, Winston Churchill, araith ar 20 Awst yn talu teyrnged i waith dewr a phwysig a brwydro gwŷr yr RAF. *'Never in the field of human conflict has so much been owed by so many to so few.'*

Yn dilyn yr ymosodiadau ar ddinasoedd Prydain, anfonodd yr RAF yr awyrennau cyntaf i fomio Berlin ar 25 Awst.

CYFNOD PEDWAR: 7 MEDI-31 HYDREF 1940

Penderfynodd yr Almaenwyr dargedu rhagor o ddinasoedd â chyrchoedd bomio anferthol - roedd y Blitz wedi dechrau. Ar 15 Medi ymosodwyd ar Lundain gydag un o'r cyrchoedd bomio ffyrnicaf. Fodd bynnag, roedd Rheolaeth Awyrennau Ymladd yr RAF yn dal i ymosod ar y Luftwaffe, a dioddefodd yr Almaenwyr golledion anferth. Daeth y diwrnod hwnnw i gael ei adnabod fel **Diwrnod Brwydr Prydain**, a gorfododd Hitler i ohirio'i fwriad i oresgyn y wlad.

Roedd yr Almaenwyr wedi difrodi meysydd awyr a ffatrïoedd, ond nid i'r fath raddau ag i stopio'r Rheolaeth Awyrennau Bomio rhag ymateb nac i awyrennau gael eu

hadeiladu. Gan mai ychydig o niwed a oedd wedi'i wneud i'r gorsafoedd radar, wnaeth y system rhybudd cynnar ddim stopio am unrhyw gyfnodau o hyd yn ystod y frwydr.

Er hynny, cynyddu wnaeth nifer y cyrchoedd nos ar ddinasoedd Prydain, i geisio diffygio pobl y wlad a lleihau colledion yr Almaenwyr. Erbyn diwedd mis Hydref, roedd Brwydr Prydain ar ben; awyrlu Prydain oedd yr awyrlu cyntaf i orchfygu'r Natsïaid. Byddai'r Blitz yn parhau am flynyddoedd, ac felly'r ymosodiadau o'r awyr, ond ni fyddai'r Almaenwyr byth yn gwneud ymosodiad mor fawr ar Brydain eto.

Y DECHNOLEG A WNAETH Y FUDDUGOLIAETH YN BOSIBL - RADAR

TECHNOLEG RADAR

Yn ystod yr 1920au a'r 1930au, roedd gwyddonwyr wedi bod yn gweithio ar ffyrdd i ganfod awyrennau o bellter, ymhell cyn iddynt gael eu gweld gan bobl ar y ddaear. Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf - neu'r Rhyfel Mawr fel y gelwid ef bryd hynny - wedi defnyddio awyrennau i wneud cyrchoedd awyr


ysgafn ac, oherwydd y datblygiadau a oedd wedi'u gwneud i awyrennau, roedd ymdeimlad fod ymosodiad difrifol o'r awyr yn bosibilrwydd real yn y dyfodol.

Ym 1934 sefydlodd Gweinyddiaeth yr Awyr Bwyllgor i drefnu Adolygiad Gwyddonol o Warchodlu'r Awyr, a cheisiodd gwyddonwyr, gan gynnwys

Robert Watson Watt, Arnold F Wilkins ac Edward George Bowen, ddyfeisio ffyrdd i greu system ganfod ar gyfer awyrennau a oedd yn dod i mewn. Un o'u hoff ddulliau oedd defnyddio tonnau radio ac, ar 17 Mehefin 1935, llwyddodd gwyddonwyr Prydain i brofi am y tro cyntaf fod tonnau radio'n gallu canfod awyrennau.


SUT ROEDD YN GWEITHIO

Roedd ton radio'n cael ei hanfon allan. Os trawai rywbeth, byddai'r signal neu'r don yn adlamu'n ôl, a byddai synhwyro 'eco' yn dangos fod rhywbeth yn dod tuag at y safle yr anfonwyd y don ohono yn y lle cyntaf. Roedd tonnau'n cael eu hanfon allan sawl gwaith yr eiliad, a mesuriadau'n cael eu plotio ar sgrin i gynhyrchu rhywbeth a edrychai fel llinell syth, yn hytrach na'r llun crwn a gysylltir â radar heddiw.




Roedd y tonnau radio'n cael eu hanfon allan o dyrau tebyg i'r rhai yn y llun uchod ar y dde, ac roeddent wedi'u lleoli ar hyd glannau deheuol a dwyreiniol Prydain.

Byddai'r signal yn cael ei wyllo gan rywun yn yr orsaf radar fyddai'n gallu gweithio allan pa mor bell i ffwrdd roedd y 'peth' a oedd yn hedfan a beth oedd ei gyflymder. Byddai hefyd yn gallu gweithio allan i ryw



raddau sawl 'peth' oedd yn hedfan. Weithiau byddai camgymeriadau'n cael eu gwneud, a byddai haid o adar yn cael eu lleoli, fodd bynnag, byddai eu cyflymder gan amlaf yn datgelu beth oeddent. Trwy gydol y rhyfel, ac yn ystod Brwydr Prydain, menywod - adran o'r WRAF - oedd llawer o'r rhai a oedd yn gweithio yn yr ystafell dderbyn radar yng ngorsafocedd yr RAF.

Tua diwedd 1936, adeiladwyd system rhybudd cynnar gysylltiedig ar hyd glannau Prydain, a galwyd hi'n *Chain Home* (CH). O 1939 ymlaen, roedd yna hefyd *Chain Home Low* (CHL), oedd yn abl i ganfod awyrennau a oedd yn hedfan yn isel. Ynghyd â'r gorsafocedd 'spotters' (pobl ar lannau



De Lloegr gyda binocwlars), roedd hyn yn rhoi i Brydain dechneg rhybudd cynnar bwysig o ymosodiad o'r awyr. Er bod y dechnoleg yn

chwyldroadol ar y pryd, ni allai'r system ond edrych allan i'r môr. Unwaith roedd awyrennau'r Almaen wedi croesi glannau Prydain a thros y tir, cyfrifoldeb y sbotwyr a gorsafocedd yr RAF oedd yn eiddo i Gorfflu'r Arsyllwyr oedd gwylio a phlotio teithiau'r ymosodwyr.

BRWYDR PRYDAIN

RAF
100

raf100schools.org.uk

O RADAR I SGRAMBLO!

Creodd Prif Farsial Awyr yr RAF, Syr Hugh Dowding, Pencadlywydd Rheolaeth Awyrennau Ymladd yr RAF, system adrodd ac ymateb oedd yn sicrhau bod y system radar rhybudd cynnar mor effeithiol â phosibl. Rhannodd system Dowding y DU

i grwpiau a sectorau, gan drefnu strwythur adrodd ar gyfer yr holl wybodaeth a oedd yn cael ei chasglu fel y byddai modd ymateb iddynt yn ddigon cyflym fel y gallai awyrennau ymladd Prydain ymdopi â'r ymosodiad.

Roedd yr holl wybodaeth a oedd yn cael ei chasglu yn y gorsafoedd radar yn cael ei gwirio ac yna'i hanfon i bencadlys Rheolaeth Awyrennau Ymladd yn Bentley Priory (ger Harrow, Gogledd Llundain), lle'r oedd gan Dowding ei Bencadlys.

Rhan ganolog o'r system oedd bod y wlad gyfan wedi'i rhannu'n bedwar grŵp (10 i 13).

- **Grŵp 10**, yn ymestyn dros Dde-orllewin Lloegr a Chymru dan Is-Farsial yr Awyr Syr Quintin Brand. Roedd y pencadlys gweithredol wedi'i leoli yn RAF Rudloe Manor ger Corsham yn Wiltshire.
- **Grŵp 11**, yn ymestyn dros Llundain a'r De-ddwyrain dan Is-Farsial yr Awyrlu Keith Park. Roedd y pencadlys gweithredol wedi'i leoli yn UxbriDUe, Gorllewin Llundain (byncer Brwydr Prydain yn awr fel y gwelwch yn y ffilm).
- **Grŵp 12**, yn ymestyn dros y Canolbarth, Dwyrain Anglia a rhannau o ogledd Lloegr dan Is-Farsial yr Awyr Trafford Leigh-Mallory. Roedd y pencadlys gweithredol wedi'i leoli yn RAF Hucknall yn Swydd Nottingham yn ystod Brwydr Prydain, ac yna symudodd i RAF Watnall, hefyd yn Swydd Nottingham.
- **Grŵp 13**, yn ymestyn dros weddill gogledd Lloegr, de'r Alban a Gogledd Iwerddon dan Is-Farsial yr Awyr Richard Saul. Roedd y pencadlys gweithredol wedi'i leoli yn Kenton ger Newcastle upon Tyne.



Byddai Bentley Priory yn anfon y wybodaeth radar i bencadlys gweithrediadau y grŵp priodol.

Roedd pob grŵp wedi'i rannu'n sectorau a oedd wedi'u lleoli ar draws y rhanbarth. Roedd y sectorau'n cynnwys y meysydd awyr, gynnau gwrth-awyrennau ac amddiffynfeydd

eraill fel balwnau amddiffyn. Cyfrifoldeb pencadlys gweithrediadau pob grŵp oedd trefnu'r ymateb i awyrennau'r gelyn a oedd yn dod dros eu rhanbarth hwy, gan ddefnyddio'r sectorau perthnasol. Yn ystod Brwydr Prydain, Grŵp 11 oedd y prysuraf, gan fod ymosodiadau'r Almaen yn dod ar draws y Sianel a thua glannau

De-ddwyrain Lloegr. Oherwydd bod hyn cyn amser y cyfrifiaduron, roedd pob penderfyniad yn cael ei basio ymlaen drwy'r systemau teleffon, a phob cam yn cael ei blotio ar fap mawr yn yr Ystafelloedd Gweithrediadau.

BRWYDR PRYDAIN

RAF
100




raf100schools.org.uk

Roedd yn rhaid i'r holl broses ddigwydd o fewn rhyw bedair munud - o'r gweithredwr radar yn canfod yr awyren a ffonio'r wybodaeth drwodd i Bentley Priory, a fyddai'n gwirio'r wybodaeth yn erbyn ffynonellau eraill ac yn pasio'r wybodaeth ymlaen i'r grŵp cywir, i'r Prif Swyddog ar ddyletswydd yn penderfynu sut y dylai pob sector ymateb, a'r tîm Gweithrediadau a thîm y Sector yn cyd-drefnu eu hymateb! Roedd y

cyflymder hwn yn hanfodol, gan ei bod yn cymryd rhyw 20 munud i awyren Almaenig groesi'r Sianel i gyrraedd targedau Prydain yn Ne-ddwyrain Lloegr wedi iddi gael ei chanfod. Roedd yn cymryd 14-16 munud unwaith roedd yr alwad telefon wedi cyrraedd y maes awyr yn y sectorau i'r peilotiaid fynd i'w hawyrennau ymladd, cychwyn yr injan, dringo i'r awyr (sgramblo oedd yr enw am y cwbl) a hedfan i gyfeiriad y glannau i

gwrdd ag awyrennau'r Almaen. Roedd hyn yn golygu nad oedd eiliad i'w gwastraffu wrth sgramblo os oedd y Luftwaffe i gael ei rhwystro rhag dinistrio safleoedd Prydain. Roedd hi'n system effeithiol iawn, ac roedd pawb yn gwybod sut i gyflawni eu rôl yn y ffordd fwyaf effeithiol. Roedd y cyfuniad o ddatblygiad technolegol a chynllunio dynol yn creu system fodern, lwyddiannus.



AMRYWIAETH YN YR AWYR

Un o gryfderau'r RAF ym 1940 oedd ei amrywiaeth. Roedd buddugoliaethau'r Almaenwyr ar draws Ewrop wedi symblu dynion ledled yr Ymerodraeth Brydeinig i deithio i Brydain i ymuno â'r RAF. Yn Ewrop ei hun, roedd awyrenwyr y gwledydd roedd yr Almaenwyr wedi'u goresgyn yn teithio i'r DU i geisio parhau'r frwydr yn erbyn y Natsïaid.

Yn ôl Amgueddfa'r RAF a ffynonellau eraill (<https://www.rafmuseum.org.uk/research/online-exhibitions/history-of-the-battle-of-britain/battle-of-the-nations.aspx>):

Yn ystod Brwydr Prydain roedd un rhan o bump o awyrenwyr y Rheolaeth Awyrennau Ymladd yn dod o dramor ac roedd 16 o wledydd wedi'u cynrychioli yn ei sgwadronau. Cyfranogodd cyfanswm o 126 o Seland Newydd, 98 o Ganada, 33 o Awstralia a 5 o Dde Affrica. Ymunodd 3 o Rhodesia, un o Jamaica, un o

Barbados ac un o Newfoundland â nhw. O wledydd y Gymanwlad y daeth rhai o beilotiaid gorau'r awyrennau ymladd, gan gynnwys y Swyddog Awyrlu o Awstralia, Paterson Hughes, ac Is-gapten Awyrlu De Affrica, Adolph 'Sailor' Malan.

Wedi i Ffrainc syrthio, croesawodd yr RAF i'w rengoedd alltudion o wledydd

Ewrop oedd wedi'u goresgyn gan yr Almaen. Yn gyfan gwbl, hedfanodd 145 o Bwyliaid, 88 o Tsiecoslofaciaid, 29 o Felgiaid, 13 o Ffrancwyr ac un Awstriad ym Mrwydr Prydain a phrofodd y rhain eu bod yn beilotiaid ardderchog. Er mai dim ond am chwe wythnos y bu Sgwadron Rhif 303 y Pwyliaid yn ymgyrchu, gallai hawlio 126 o fuddugoliaethau a dyma fyddai uned uchaf ei sgôr yr RAF. Y peilot RAF mwyaf llwyddiannus oedd Sarjant Josef Frantisek, Tsieciad a fu hefyd yn hedfan gyda '303'.

Yn ogystal â'r gwahanol wledydd, roedd hefyd wahanol grefyddau yn yr RAF. Roedd Cristnogion, Mwslemiaid, Sikhiaid a Hindŵiaid yn gwasanaethu fel rhan o'r RAF.

CYFRANIAD Y PWYLIAID – SGWADRON 302 A 303

Nid oedd awyrlu'r Pwyliaid i'w chymharu â'r Luftwaffe rhagorach ei dechnoleg yn nhermau awyrennau. Fodd bynnag, roedd peilotiaid a chriwiau'r Pwyliaid yn rhagorol ac wedi ymladd cystal ag y gallent pan oresgynnodd yr Almaen Wlad Pwyl ym mis Medi 1939. Hedfanodd llawer o awyrenwyr Pwylaidd i Ffrainc cyn gynted ag y syrthiodd Gwlad Pwyl, fel y gallent barhau i ymladd yr Almaenwyr. Wedi i Ffrainc hefyd syrthio ym mis Mehefin 1940, teithiodd yn agos i 8,400 o awyrenwyr Pwylaidd i Brydain, a alwent bellach yn *Wyspa Ostatniej Nadziei* neu 'Ynys y Gobaith Olaf'.

I ddechrau, nid oedd llawer ohonynt yn medru siarad gair o Saesneg. Yna, ym mis Awst 1940, cytunwyd i'w ffurfio'n ddwy sgwadron, Sgwadron 302 a 303. (Ffordd o drefnu peilotiaid, y criwiau ar y ddaear a'r awyrennau yn grwpiau yw sgwadron - bydd sgwadron yn cynnwys 12-

24 o awyrennau ynghyd â'r nifer o beilotiaid, criwiau ayb sydd eu hangen i gynnal y gweithrediadau.)

Roedd peilotiaid Gwlad Pwyl wedi ymladd yr Almaenwyr cyn hynny; roeddent yn gwybod rhai o'u tactegau yn yr awyr ac yn abl i'w gwrthsefyll. Ar ôl Brwydr Prydain, parhaodd y Pwyliaid i wasanaethu yn yr RAF fel rhan o'r Awyrlu Pwylaidd gan gynnwys nifer

fawr o'r criwiau daear (peirianwyr ayb). Cawsant gynnig gwersi Saesneg, a chyfieithwyd llawlyfrau technegol i'r Bwyleg. Erbyn diwedd y rhyfel ym 1945, roedd rhyw 15 o sgwadronau yn yr Awyrlu Pwylaidd, yn cynnwys awyrennau ymladd, awyrennau bomio, dyletswyddau arbennig a rhai'n ymwneud â'r glannau, gyda thua 14,000 o ddynion a menywod yn gwasanaethu ynddynt.



<http://www.polishsquadronsremembered.com/303/>

Y PEILOTIAID, Y CRIW DAEAR A'R GWEITHREDWYR PWY OEDD YR YCHYDIG?

Rhyw 3,000 o beilotiaid a gymerodd ran ym Mrwydr Prydain fel rhan o'r RAF. Fodd bynnag, roedd miloedd yn rhagor yn gweithio fel mecanyddion, ffitwyr, peirianwyr neu ar amddiffynfeydd cartref, fel gynnuau gwrth-awyrennau a balwnau amddiffyn (balwnau anferth wedi'u cysylltu â cheblau i dynnu sylw a drysu peilotiaid oedd y balwnau amddiffyn, a gallent ddod ag awyren i lawr os hedfanai i mewn i un ohonynt). Roedd hefyd staff yn gweithio yn yr Ystafelloedd Gweithrediadau ac mewn gorsafedd radar, ynghyd â'u staff cynorthwyol.

Yn ogystal â'r peilotiaid oedd yn ymladd yr Almaenwyr yn yr awyr, roedd peilotiaid oedd â'r gwaith o drawsgludo awyrennau o'r ffatrioedd i safleoedd ac o un safle i'r llall. Y peilotiaid hyn oedd yr ATA – yr *Air Transport Auxiliary*. Roedd yn

bron un o bob wyth o beilotiaid yr ATA yn fenyw. Er nad oedd y peilotiaid hyn yn ymladd, roeddent yn dal i beryglu'u bywydau yn aml gydag awyrennau anwadal, a chaent eu targedu gan awyrennau ymladd yr Almaenwyr. Fel hyn y soniodd yr Arglwydd Balfour, Is Ysgrifennydd Gwladol yr Awyr, amdanynt; 'the Air Transport Auxiliary were civilians in uniforms who played a soldier's part in the Battle for Britain'.

Roedd menywod, fel rhan o'r WRAF, hefyd yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r dyletswyddau yn yr Ystafelloedd Gweithrediadau ac yn y gorsafedd radar. Roeddent yn gwasanaethu yn y Corfflu Gwylio fel sbotwyr, yn ogystal â gwneud gwaith cynhaliol gyda'r criw daear. Nid oedd menywod yn cael ymladd; fodd bynnag, roedd menywod yn rhan o griw'r gynnuau gwrth-awyrennau. Roedd y peilotiaid yn dod o

wahanol haenau o gymdeithas. Roedd hedfan yn hobi ddruad iawn cyn y rhyfel, felly dynion cefnog oedd gan amlaf yn beilotiaid, ond nid bob tro. Roedd y rhai a weithiai ar yr awyrennau fel mecanyddion yn aml yn dysgu hedfan hefyd. Unwaith i'r rhyfel ddechrau, roedd yr RAF yn awyddus i recriwtio unrhyw un a ddangosai allu i hedfan, yn enwedig dan bwysau. Roedd hyn yn golygu bod cymysgedd go iawn o bobl yn mynd yn beilotiaid.



© Hawlfraint y Goron yr Imperial War Museum

RHAI YSTADEGAU

Roedd **2,000** o awyrennau gan y Luftwaffe.

Roedd **640** o awyrennau'r RAF gan y Rheolaeth Awyrennau Ymladd, yn cael eu cynorthwyo gan Reolaeth Awyrennau Bomio a Rheolaeth Amddiffyn y Glannau.

Roedd **3,000** o beilotiaid,

fwy neu lai, yn gwasanaethu gyda'r Rheolaeth Awyrennau Ymladd a'u hoedran ar gyfartaledd oedd **20** (er bod rhai'n **18** ac eraill dros **30**).

Collodd yr RAF **1,023** o awyrennau yn ystod Brwydr Prydain a cholodd y Luftwaffe **1,887**.

O'r **3,000** o griwiau awywr

a ymladdodd ym Mrwydr Prydain, collodd, **544** eu bywydau, ac o'r gweddill, bu farw **814** yn ychwanegol cyn diwedd y Rhyfel.

Yr awyrennau enwocaf a ddefnyddiwyd ym Mrwydr Prydain oedd yr **Hawker Hurricane** a'r **Supermarine Spitfire Mk I** Prydeinig a'r **Messerschmitt Bf 109** Almaenig, er i awyrennau

eraill hefyd chwarae eu rhan.

Roedd **35** o sgwadronau Hurricane o'i gymharu â **19** o rai Spitfire.

Tra'r oedd y Spitfire yn fwy newydd, ychydig yn llai ac yn gyflymach, roedd yr Hurricane yn fwy dibynadwy ac yn llawer haws i'w hatgyweirio.

CANLYNIAD BRWYDR PRYDAIN

Roedd gan yr Almaenwyr bump i bob un o awyrenwyr yr RAF.

Roedd cost y Frwydr yn uchel yn nhermau peilotiaid ac awyrennau.

Yn y pen draw, Prydain enillodd Frwydr Prydain a hynny oherwydd y rhybudd ymlaen llaw a roddai radar iddynt, yn gweithio gyda System Dowding. Mae hefyd wedi cael ei awgrymu mai, i lawer o'r rheiny oedd yn hedfan, yr angen

i rwystro cael eu goresgyn yn hytrach nag ymosod oedd bwysicaf, ac roeddent yn fwy parod i fentro na'r Luftwaffe oherwydd hynny.

Trwy orchfygu'r Luftwaffe, rhwystrodd yr RAF nhw rhag goresgyn y wlad, ac ar yr un pryd rhwystrodd adnoddau Prydain, ei Hymerodraeth a'i Chymanwlad rhag syrthio dan reolaeth y Natsiaid.

Yn y pen draw, roedd llwyddiant Brwydr Prydain yn golygu y gallai'r Natsiaid gael eu gorchfygu, ac roedd hynny'n neges bwysig i bobl Ewrop a gweddill y byd.

DEFNYDDIO'R WYBODAETH HON

Mae'n bosib cyfuno'r wybodaeth hanesyddol a ffeithiol hon gyda'r ffilm gyflwyno a'r adnoddau o'r adran adnoddau i ystyried rhai syniadau creadigol mewn clwb ysgol/clwb anffurfiol, neu ar gyfer gwrs sy'n fwy seiliedig ar y cwricwlwm.

Isod, mae yna syniadau a chwestiynau ymholi a gallai'r

deunyddiau hyn eich helpu gyda'r rhain.

Yn ogystal â'r wybodaeth hanesyddol uchod, mae astudiaethau achos a gwybodaeth ychwanegol ar gael yn yr adran adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys bywgraffiadau ac astudiaethau achos ar dechnoleg awyrennau.

CWESTIYNAU ALLWEDDOL I'W HARCHWILIO MEWN UNRHYW LEOLIAD:

Pam oedd gan radar rôl yn strategaeth Prydain i orchfygu'r Almaenwyr yn ystod Brwydr Prydain?

Pam roedd Brwydr Prydain mor bwysig i'r DU ym 1940?

SUT I DDEFNYDDIO'R DEUNYDD HWN MEWN CLWB HANES NEU GLWB AMSER CINIO/AR ÔL YSGOL/CLWB ANFFURFIOL

Mae'r syniadau hyn yn addas ar gyfer cymysgedd o grwpiau oedran a galluoedd. Mae'n bosibl eu defnyddio gyda'r map rhyngweithiol i ddechrau ymchwiliad hanesyddol lleol hefyd.

DECHREUWCH DRWY DDANGOS Y FFILM - ORIGINS OF THE RAF

Darparwch y wybodaeth hanesyddol neu darllenwch hi i'r myfyrwyr, a dewiswch un neu'r ddau gwestiwn o'r rhestr uchod y credwch fydd o ddiddordeb i'r grŵp. (Efallai y byddwch am ddefnyddio'r cwestiynau ychwanegol yn y bocs ar ddiwedd yr adran hon i ysgogi syniadau)

Dewiswch rai o'r astudiaethau achos/bywgraffiadau o'r adran adnoddau. Gofynnwch i'r bobl ifanc ateb y cwestiwn/cwestiynau a chyflwyno'u canfyddiadau fel:

- Poster gwybodaeth yn dangos pam roedd enill Brwydr Prydain yn bwysig
- Stori papur newydd i'w hysgol/llythyr newyddion grŵp yn dweud pam roedd angen diogelu a chefnogi'r gorsafoedd radar yn ystod Brwydr Prydain
- Arddangosfa ar gyfer hysbysfwrdd yr ysgol/y dosbarth/y grŵp am y gwahanol bobl a grwpiau a gyfrannodd i fuddugoliaeth Brwydr Prydain.
- Sgript ddigri neu graffig yn dangos holl gamau system Dowding a faint o amser a oedd yn cael ei ganiatáu i bob cam.

- Cyflwyniad i'r gwasanaeth neu sgwrs gydag aelodau eraill eich grŵp ar sut roedd radar yn gweithio a pham roedd yn gwneud gwahaniaeth

Gwaith Estynedig: Ceisiwch ddod i wybod sut mae radar yn gweithio heddiw - ai dim ond gan y fyddin y defnyddir ef?

Nawr, defnyddiwch rywfaint o'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu i ddechrau ymchwilio i hanes lleol maes awyr milwrol yn eich ardal chi - gallwch wneud hyn gan ddechrau gyda'r map rhyngweithiol. Dros y ganrif ddiwethaf, defnyddiodd yr RAF 1,500 o safleoedd awyr neu leoliadau, felly hyd yn oed os nad ydych chi'n byw ger un yn awr, byddai un wedi bod yn eich ardal chi ar ryw adeg. Dysgwch fwy am y safle hwnnw.

Ewch ati i ddod o hyd i wybodaeth am y safle.

Nodwch pa wybodaeth neu ddealltwriaeth arall o gyfnod hanesyddol sydd eu hangen i adrodd hanes y safle hwnnw.

BRWYDR PRYDAIN

GWERSI I GEFNOGI'R CWRICWLWM A/NEU ARHOLIADAU



CANLLAWIAU AR SUT Y GALLECH DDEFNYDDIO'R DEUNYDD HWN MEWN GWERS AM:

1. Y Rhyfel Byd Cyntaf
2. Technoleg Rhyfela

1. YR AIL RYFEL BYD

11-14 oed

Gall y cwestiynau yn y bocs gael eu defnyddio hefyd i archwilio'r thema hon a'r deunyddiau.

Enghraifft o gwestiwn ymchwil allweddol:

A oedd ffactor allweddol a fu o gymorth i Brydain ennill Brwydr Prydain?

DANGOSWCH Y FFILM – THE RADAR AND THE BATTLE OF BRITAIN

Caniatewch iddynt gael gafael ar wybodaeth hanesyddol, bywgraffiadau ac astudiaethau achos yn yr adran adnoddau. Gan weithio mewn grwpiau, gofynnwch i'r myfyrwyr greu eu map Ystafell Gweithrediadau eu hunain, fel yr un a welir yn y ffilm.

Ewch ati i gynnwys rolau a sgiliau'r rhai sydd yn yr Ystafell o gwmpas ochrau'r map, e.e.:

- Rheolwr Gweithrediadau
- Teleffonydd
- Plotwyr mapiau
- Tracwyr y gelyn
- Cysylltwyr sgwadron
- Gweithredwyr cysylltiadau
- Plotwyr sector

Ar y map, mae angen iddynt roi'r holl leoliadau lle y digwyddodd damweiniau neu ddigwyddiadau allweddol, lle y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud a ble'r oedd pethau'n digwydd, e.e.:

- Gorsafoedd radar
- Criwiau balwnau amddiffyn
- Gynnau gwrth-awyrennau
- Safleoedd awyr
- Awyrennau'r gelyn
- Sbotwyr
- Ffatrioedd awyrennau
- Trefi allweddol
- Ystafelloedd Gweithrediadau

Gan ddefnyddio system bwyntiau o 1-10, gofynnwch i'r myfyrwyr werthuso pwysigrwydd pob swydd neu rôl, e.e.:

Sbotiwr – 7

Gweithredydd radar – 10

Pennaeth yr Ystafell Weithrediadau – 10

Teleffonydd – 8

Drwy weithio ar y gweithgaredd hwn, gofynnwch i'r myfyrwyr drafod: ***A oedd ffactor allweddol a fu o help i'r RAF ennill Brwydr Prydain?***

Gofynnwch i'r myfyrwyr pam roedd cyfuniad o dechnoleg a threfniadaeth ddynol yn hanfodol i ganlyniad Brwydr Prydain.

2. TECHNOLEG RHYFELA

11–16 oed

Enghraifft o gwestiwn ymchwil allweddol:

Pa dechnolegau oedd yn bwysig yn ystod yr Ail Ryfel Byd ar gyfer diogelwch?

Dangoswch y ffilm.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hanesyddol, lluniwch linell amser o radar a system Dowding, o'r adeg mae'r system yn canfod awyrennau'r gelyn am y tro cyntaf i'r adeg mae'r ddwy ochr yn cyfarfod yn yr awyr.

Ar bob cam o'r llinell amser, dywedwch beth sydd angen ei wneud, gan bwy, a beth fydd yn digwydd os na chaiff y peth hwnnw ei wneud.

Ewch ati i ymestyn y llinell amser i gynnwys y technolegau/tactegau eraill a oedd yn cael eu defnyddio yn ystod ymosodiad gan y Luftwaffe.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth yn y llinell amser ac yn unrhyw fan arall ar y safle, gofynnwch i'r myfyrwyr

greu rhestr sgiliau i bob person oedd yn gysylltiedig â gwahanol gamau ymosodiad ac ymateb diogelwch yn ystod Brwydr Prydain.

Nawr, gofynnwch i'r myfyrwyr pa un, yn eu tyb nhw, oedd rhan bwysicaf y broses.

Ai sgiliau'r peilotiaid, y gweithredwyr neu'r dechnoleg oedd bwysicaf yn ystod Brwydr Prydain?

Dod i gasgliad: Pa mor bwysig oedd technoleg radar i Frwydr Prydain?

Gwaith Estynedig: Chwiliwch am wybodaeth am y defnydd o radar heddiw – ai dim ond y fyddin sy'n ei ddefnyddio?

CWESTIYNAU YCHWANEGOL I ATEGU DYSGU AR GYFER POB GRŴP

- Pam y gwnaeth partneriaeth technoleg radar a barn dyn gymaint o wahaniaeth i'r Cynghreiriaid ym muddugoliaeth Brwydr Prydain?
- Pam roedd Brwydr Prydain mor arwyddocaol i weddill Ewrop ym 1940?
- Sut gwnaeth y bobl yn yr Ystafelloedd Gweithrediadau helpu i ennill Brwydr Prydain?
- Pa awyrennau a ddefnyddiwyd ym Mrwydr Prydain – pam y defnyddiwyd gwahanol rai (defnyddiwyd y wybodaeth yn yr adran adnoddau)?
- Pa rolau oedd yn cael eu cyflawni gan fenywod yn ystod Brwydr Prydain?
- Pam roedd hi o bwys fod peilotiaid Brwydr Prydain yn dod o wahanol wledydd?
- Pam roedd hi'n bwysig fod pawb yn gwybod ei rôl fel rhan o system Dowding?
- Cafodd Douglas Bader ei anafu wrth hedfan ym Mrwydr Prydain – a wnaeth hynny effeithio ar ei hedfan?
- Sut oedd radar yn gweithio ym 1940?
- Sut defnyddiodd yr RAF radar i ymateb i ymosodiadau'r Almaen?
- Beth oedd y gwahanol gamau, o ganfod y gelyn i awyrennau Prydain yn dychwelyd i'r ddaear?
- Pam yr ymosododd yr Almaen Natsïaidd ar Brydain ym 1940?
- Pam roedd hi mor bwysig i Brydain ennill Brwydr Prydain?

DEFNYDDIO DEUNYDDIAU ATEGOL FFISEG/STEM:

Mae'r gweithgaredd wedi'i gynllunio i ddangos agwedd ar dechnoleg sy'n cyfleu peth o feddwl y gorffennol. Gyda'r gweithgaredd STEM yma, ceisiwch ddeall sut gallai radar gael ei gyfaddawdu (ddim bob amser yn fanwl gywir) a sut gellid defnyddio'r wybodaeth mae'n ei rhoi mewn gwahanol gyd-destunau heddiw.